**Cyngor Cymuned Llangywer**

**Cofnodion Tachwedd 7/11/2022**

**Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, Lis Puw (Clerc)

**Sesiwn Hyfforddiant:** Croesawyd Huw Antur i'r cyfarfod. Rhoddodd hyfforddiant ar lunio Cynllun Ardal gan glymu hwn gyda chynllun Ardal Ni sy'n cael ei greu ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd. Amlinellodd cynnwys Cynllun Ardal sef TAI / ECONOMI A CHYFLOGAETH / Y GYMUNED. Gwelwyd gwerth mawr yn y Cynllun Ardal fel modd cadarnhaol o ofalu am ein hardal ni, a chytunwyd i wneud cyfrifiad o anheddau'r ardal i gychwyn, fel y gall yr wybodaeth fwydo ymateb y Cyngor i wahanol sefyllfaoedd.

Cytunwyd i gydnabod Huw Antur am ei hyfforddiant.

1. **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau W D Williams a'r Cynghorydd Alan Jones Evans.
2. **Buddiant**: Datganodd Tyly Roberts ddiddordeb ym mater Gohebiaeth 11i
3. **Cofnodion 12/9/2022** Cadarnhawyd eu cywirdeb. Cytunwyd gyda'r Clerc i ohirio gofyn am osod ardoll ar y ffi parcio ar hyn o bryd, oherwydd mater cyfyngu parcio ar hyd y ffordd.
4. **Materion y Clerc:** Ymatebodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gadarnhaol i gŵyn lleol.

   Cynrychiolodd y Clerc Cyngor Cymuned Llangywer fel a ganlyn:

   i. Ardal Ni 27/9/22 – cyfarfod i ganfod blaenoriaethau ardal Penllyn ar gyfer gwariant Llywodraeth y DU
   ii. Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Powys 8/10/22
   iii. Cynhadledd Bioamrywiaeth (ar lein) 27/10/22 – y neges yw fod 1 o bob 6 rhywogaeth yng Nghymru o dan fygythiad o ddiflannu; nid yw Natur yn daclus; mae llecynnau lle nad yw'r gwair yn cael ei dorri'n aml yn bwysig i bioamrywiaeth.
   iv. Cyfarfod parcio 16/9/22 yng nghyd â Clwyd Davies ac Alan Jones Evans i drafod problem ymwelwyr yn parcio ar hyd y ffordd gyda Chyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

5. **Gorchymyn Clirffordd ar rannau o'r B4403**: ystyriwyd 5 cynllun a anfonwyd gan Marie L Williams, Gwasanaeth trafnidiaeth a Phrosiectau Cyngor Gwynedd, yn dynodi 5 ardal Clirffordd ar y B4403. Cymeradwywyd y cynllun ond awgrymwyd ychwanegu darn at y cynllun o'r Clwb Hwylio ymlaen.
6. **Adroddiadau Cyngor Gwynedd:** Nid oedd adroddiad wedi dod i law gan Cynghorydd Alan Jones Evans (Cwm y Glyn) na'r Cynghorydd Elwyn Edwards (Rhosygwaliau).

7. **Materion lleol y Cynghorwyr –** Gwrych wedi gor-dyfu wrth y Clwb Hwylio – cytunwyd i ohirio'r drafodaeth tan y bydd Cynghorydd Gwynedd yn bresennol.

8. **Cynllunio**: ystyriwyd Cais **NP5/70/LB28** sef caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trên a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala. Cytunwyd i ymateb trwy ddweud nad yw'r Cygnor yn dymuno ychwanegu at sylwadau a anfonwyd ar 20/1/22.

10. **Materion ariannol:** Derbyniwyd manylion am y sefyllfa ddiweddaraf.

Derbyn: Cytunwyd i ddiolch i Gwersyllfa Pant yr Onnen am y casgliad hael tuag at gynnal y peiriannau di-ffib. Mae'r arian hwn yng nghoffrau Pwyllgor y Neuadd ac mae ar gael at ddefnydd y Cyngor pan fo angen gwario ar y di-ffib.

Cytunwyd i'r taliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Y fynwent | £250 Torri gwair |
| Cyngor Gwynedd | £214 Costau Etholiad |
| SLCC | £ 48 Tal Aelodaeth ( yn cael ei rannu rhwng 3 chyngor) |
| Hyfforddiant | £ 50 |

11. **Gohebiaeth:**

    i. **Triathlon 2022:** roedd unfrydedd bod y trefniadau eleni wedi bod yn rhai llwyddiannus ac amserol.
    ii. **Un Llais Cymru :** Darnau sbâr i di-ffib – nodwyd derbyn y cynnig, ond nodwyd gall y rheolau newid cyn hir ac felly ni archebir darnau sbâr ar hyn o bryd.

12. **Cynllun Bioamrywiaeth** Cyngor Cymuned Llangywer 2022-25: cafwyd trafodaeth a chytundeb i gyfarfod yn y Fynwent yn y Gwanwyn i drafod posibiliadau eraill. Gofynnwyd i'r Clerc lunio'r Cynllun.
13. **Cynllun Hyfforddiant** Cyngor Cymuned Llangywer 2022-27 – lluniwyd a chytunwyd.
14. **Y fynwent:**

    a. Torri gwair: Derbyniwyd lythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Chris Ellis a diolchwyd iddo am ei waith yn cael trefn ar wair y fynwent. Cytunwyd gyda Clwyd Davies a fynegodd ei fod yn awyddus bod y gwair yn cael ei dorri cyn y tywydd drwg gan fod ei gyflwr presennol yn mynd i wneud y gwaith yn anoddach y tymor nesaf.
    b. Cytunwyd i hysbysebu am rywun i dorri'r gwair yn nhymor 2023 (dwy waith yn y darn gwaelod; yn fwy aml ar y darn top).
    c. Cytunwyd i chwilio am grant i greu llwybr fel bo teuluoedd yn gallu cerdded yn ddi-dramgwydd; trafodir hyn ymhellach yn y cyfarfodydd nesaf.
    d. Trwsio'r giât: dywedodd Clwyd Davies fod y gwaith mewn llaw.

15. **Partneriaeth Penllyn:** bydd adroddiad gan y cynrychiolwyr yn y cyfarfod nesaf.

16. **Dyddiad** y cyfarfod nesaf: 9/1/2023

Amser gorffen: 9.45pm